

❖ OEDFA NADOLIG

Gweddi agoriadol

O! Dad tragwyddol, a roddaist dy hun i'th blant yng ngeni dy Fab annwyl Iesu Grist, gweddiwn am iddo gael ei eni hefyd yn ein calonnau ninnau, bawb, fel y'n gwaredo oddi wrth ein pechodau. Adfer ynom ddelw ein Creawdwr, i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Lewis Valentine

Emyn

Ni wyddai'r Doethion dyfal
Wrth ddwyn eu rhoddion drud
Yng ngolau'r seren siriol
I'r Brenin yn ei grud
Mai Hwn oedd y dioddefus was
A gariai'r groes yn nheyrnas gras.
Ni wyddai'r syn fugeiliaid
Wrth wrando'r nefol gôr
Yn llon gyhoeddi'r newydd
Am anfonedig Iôr
Mai Ef oedd Bugail Mawr yr ŵyn
A fyddai'n marw er eu mwyn.

Fe wyddom ninnau heddiw
Ddwyfoled oedd yr awr,
Ond mwyach ni ryfeddwn
At drefn yr arfaeth fawr,
Ac nid oes gân na seren dlos
I lonni ein di-angel nos.
Mae'r seren eto'n eglur
I'r neb a wêl yn wir,
Ac anthem bêr yr engyl
Yn torri dros y tir
I bawb a dry addolgar drem
Ar fythol wyrthiol Fethlehem.

Morgan D. Jones

Carol ar ddull suo-gân

Paham y daethost, nefol Aer,
At Joseff mwyn a mi?
Y Duw ddyn yma'n fab y saer,
Ond heno, cysga di.

Anesmwyth ydyw cwyn y gwynt
A thrwm fy nghalon i;
Mae milwyr Herod ar eu hynt,
Ond heno, cysga di.

Cei aur a thus yn arwydd hedd
Gan dywysogion dri,
Cei chwerw fyrr, a chroes a bedd,
Ond heno, cysga di.

Bugeiliaid ddônt oddi wrth eu tasg
Gan ddwyn oen bach heb gri;
Tydi, fy oen, tydi yw'r Pasg!
Ond heno, cysga di.

Stephen Jones

Gweddï

Dad annwyl, ynghanol ein prysurdeb, atgoffa ni
i aros weithiau a cheisio llonydd gyda Thi.
A phan fydd hi'n ofynnol i ni gydio drachefn mewn gwaith,
saf gerllaw.

Wrth wneud y cartref yn barod,
helpa ni i baratoi ein calonnau hefyd,
fel y deui o hyd i gynhesrwydd a chroeso yma.

Ac fel y byddwn yn paratoi'r bwyd,
cymorth ni i feddwl amdanat Ti –
fel prif westai'r wledd Nadolig,
fel y teimlwn o'th bresenoldeb sanctaidd wrth y bwrdd,
ar yr aelwyd,
ac yn ein meddyliau,
ein syniadau,
ein dathliadau,
a'n seiadau.

Ac wrth roi o'n anrhegion,
paid â gadael i ni golli golwg
arnat ti, O! Dduw,
ac ar Rodd y rhoddion,
a honno wedi ei chyfeirio'n bersonol
i bob un ohonom,
sef Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwardedwr.
Amen.